Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Ymgynghoriad ar y Cynllun Heddlu a Throseddu 2025-2029

Adroddiad ar ymgynghoriad a gynhaliwyd gan staff SCHTh gyda chymunedau Dyfed-Powys ar flaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu 2025-2029 arfaethedig

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

Un o brif rolau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) yw cynhyrchu Cynllun Heddlu a Throseddu sy'n nodi'r cyfeiriad ar gyfer plismona am y pedair blynedd nesaf (2025-2029).Mae'n ddogfen gyfreithiol y mae'n rhaid i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) ei chynhyrchu o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Rhaid cyhoeddi'r Cynllun Heddlu a Throseddu cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl yn dilyn yr etholiadau ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a dim hwyrach na 31 Mai 2025. Er mwyn llywio'r blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Heddlu a Throseddu, mae'n rhaid i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ymgynghori â'r Prif Gwnstabl, pobl leol a dioddefwyr troseddau, yn ogystal ag ymgynghori ag aelodau'r Panel Heddlu a Throseddu.

Roedd yr ymgynghoriad i fod i gael ei lansio ar 3 Mehefin 2024 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhaliwyd eleni ym Meifod, Powys. Fodd bynnag, oherwydd cyhoeddi Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Gorffennaf, gohiriwyd yr ymgynghoriad tan ar ôl yr etholiad, yn unol â chanllawiau cyn etholiad. Roeddem yn gallu parhau ag agweddau ar yr ymgynghoriad ym mis Mehefin, heb gyfeirio at yr ymgynghoriad ffurfiol. Lansiwyd yr ymgynghoriad yn ffurfiol ar **8 Gorffennaf 2024** a daeth i ben ar **1 Hydref 2024**.

Roedd gweithgareddau ymgynghori'n cynnwys arolwg ar-lein, ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystod digwyddiadau ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Powys a Sir Benfro, sesiynau grŵp ffocws gyda grwpiau lleiafrifol, sesiynau grŵp ffocws gyda chynghorwyr, ac adborth gan y Panel Heddlu a Throseddu.

Cymerodd cyfanswm o 900 o unigolion ran yn yr ymgynghoriad, 659 drwy'r arolwg ar-lein, a 176 mewn digwyddiadau ymgysylltu. Mynychodd 34 grwpiau ffocws gyda grwpiau lleiafrifol, a mynychodd 31 grwpiau ffocws ar gyfer cynghorwyr.

## 2. Themâu'r cwestiynau ymgynghori

Nod cyffredinol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn ar gyfer y Cynllun Heddlu a Throseddu newydd yw **"gwella ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn plismona".** Ceisiodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ymgynghori ac ymgysylltu â chymunedau yn ardaloedd Dyfed-Powys i nodi themâu hollbwysig a meysydd ffocws i'w blaenoriaethu yn y Cynllun Heddlu a Throseddu 2025-2029, a fyddai'n ceisio gwella hyder y cyhoedd yn yr heddlu.

Cynigiwyd y blaenoriaethau canlynol i'r cyhoedd fel rhan o'r ymgynghoriad:

- Cefnogi cymunedau diogel ac atal niwed – gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) droseddau gwledig, siop-ladrad, teimlo'n ddiogel, diogelu, diogelwch y ffyrdd, digartrefedd, camddefnyddio sylweddau, ymyrraeth gynnar, dull gweithredu iechyd y cyhoedd, atal troseddau difrifol a threfniadol,
- Sicrhau cyfiawnder – gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) gyfiawnder ieuenctid, cyfiawnder adferol, canolfannau menywod, y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr.
- Cefnogi dioddefwyr ac atal gormesu – cam-drin domestig, troseddau rhywiol, stelcio ac aflonyddu, deall anghenion dioddefwyr.

Roedd cwestiynau'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y canlynol;

- Blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer plismona
- Canfyddiadau'r cyhoedd o blismona
- Cydraddoldeb a chynhwysiant
- Cyfathrebu ac adborth

Mae'r holl gwestiynau a oedd yn rhan o'r arolwg ar-lein a'r grwpiau ffocws wedi'u cynnwys yn **Atodiad A**.

## 3. Methodoleg

### 3.1 Arolwg ar-lein

Hyrwyddwyd yr arolwg ar-lein trwy amrywiol gyfryngau i ymgysylltu cymaint â'r gymuned â phosibl. Roedd y dulliau hyn yn cynnwys y canlynol:

- **Ymgyrchoedd negeseuon e-bost** i restrau cyswllt Heddlu Dyfed-Powys, a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid, sefydliadau cymunedol, a thrigolion.
- Rhannwyd **postiadau organig ar y cyfryngau cymdeithasol** trwy gyfrifon Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ar LinkedIn, Facebook, Instagram, ac X. Yn ogystal â hyn, gofynnwyd i wasanaethau a gomisiynwyd, Heddlu Dyfed-Powys, a rhanddeiliaid eraill rannu'r postiadau i gynyddu eu cyrhaeddiad.
- Anfonwyd **datganiad i'r wasg** i'r cyfryngau lleol i hyrwyddo'r arolwg.
- **Eitemau newyddion** wedi'u cynnwys mewn bwletinau mewnol i hysbysu staff am yr arolwg ac i annog cyfranogiad.
- **Erthyglau mewn cyfnodolion**, gan gynnwys dwy erthygl yn hyrwyddo'r ymgynghoriad.
- Anfonwyd **negeseuon e-bost at yr holl staff** yn fewnol i annog cyfranogiad.

- Defnyddiwyd **hysbysebion taledig** mewn ffordd strategol i hybu cyrhaeddiad yr arolwg:
- Cynhyrchodd ein **hysbysebion** Meta **mewnol** taledig, a oedd yn cynnwys hysbysebion Cymraeg a Saesneg, **47,441 o argraffiadau**.
- Defnyddiodd WalesOnline hysbysebion taledig gan ddefnyddio cyfuniad o **hysbysebion InYourArea** a hysbysebion wedi'u targedu ar Facebook. Dechreuodd yr ymgyrch ar **12 Medi 2024**, a chynhyrchodd:
    - **42,921 o argraffiadau** gyda **433 o gliciau** trwy hysbysebion **Facebook a Taboola**.
    - Cafodd yr erthygl ar WalesOnline a oedd yn cynnwys dolen i'r arolwg ei gweld **1,082 o weithiau,** gan **919 o ddefnyddwyr unigryw**.

  Hyrwyddodd **Cambrian News** yr arolwg ar draws pump o'u hallfeydd newyddion trwy hysbysebion digidol ac ymgyrchoedd Facebook Messenger. Cynhaliwyd yr ymgyrch rhwng 11 Medi 2024 a 18 Medi 2024, a chynhyrchodd:
    - **17,398 o argraffiadau** gyda 314 o gliciau.
    - Y gyfradd clicio ar gyfer ymgyrch Cambrian News oedd **1.80%**.

  **Twf yr ymateb i'r arolwg:** Cyn yr ymgyrchoedd hysbysebu digidol, cafwyd tua 200 o ymatebion i'r arolwg. Yn dilyn yr ymdrechion hysbysebu, cynyddodd y nifer hwn i **659 o ymatebion**, sef **cynnydd o 229.5%** yn yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg, gan ddangos pŵer hysbysebion digidol sydd wedi'u targedu.

Yn ogystal â hyn, defnyddiwyd dulliau hysbysebu traddodiadol megis deunyddiau wedi'u hargraffu a dolenni cod QR mewn digwyddiadau cyhoeddus megis Sioe Frenhinol Cymru, a Sioe Sir Benfro. Ceir y manylion isod.

### 3.2 Digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd

Mynychodd staff SCHTh nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ar draws ardal yr heddlu i hyrwyddo ac ymgysylltu â'r cyhoedd ar yr ymgynghoriad. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys;

Mehefin

- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Meifod, Powys

Gorffennaf

- Sioe Frenhinol Cymru, Powys
- Pride Sir Benfro, Hwlffordd, Sir Benfro
- Digwyddiadau ymgyfarwyddo â gyrfa i bobl ifanc ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys

Awst

- Diwrnod agored Gorsaf Heddlu Aberhonddu
- Diwrnod agored Gorsaf Heddlu'r Drenewydd
- Sioe Amaethyddol Sir Benfro, Hwlffordd
- Mosg Aberdaugleddau

Medi

- Digwyddiad Hanes Pobl Dduon 365 Gorllewin Cymru Race Council Cymru, Caerfyrddin.
- Lladd-dy Dunbia, Llanybydder, Ceredigion

### 3.3. Sesiwn grŵp ffocws gyda grwpiau lleiafrifol

Cysylltwyd â chyfanswm o 56 o grwpiau cymunedol, sefydliadau neu elusennau yn eu gwahodd i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, gyda llawer o'r grwpiau hyn yn rhannu'r cyfle yn ehangach â'u cysylltiadau. Mae rhestr lawn o'r holl grwpiau a wahoddwyd i'w gweld yn Atodiad B. O'r 56 a wahoddwyd, roedd pedwar grŵp cymunedol ar gael ac yn fodlon cymryd rhan mewn grwpiau ffocws gyda staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu o fewn y cyfnod ymgynghori. Roedd 11 grŵp cymunedol arall hefyd wedi dangos diddordeb mewn ymgysylltu ac ymgynghori â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Swyddfa, ond nid oeddent yn gallu cyfarfod yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad.

Dangosodd y 41 grŵp cymunedol arall rywfaint o ddiddordeb mewn ymgysylltu â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar y pryd.

Nod y sesiynau grŵp ffocws oedd codi ymwybyddiaeth ymhlith cymunedau Dyfed-Powys a dangynrychiolir, o rôl a chyfrifoldebau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ynghyd â nodi'r prif feysydd ffocws o bwys i gymunedau Dyfed-Powys y dylid eu hystyried yng Nghynllun Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys 2025-2029.

Cynhaliwyd yr holl sesiynau ymgysylltu mewn ffordd a oedd yn galluogi'r holl grwpiau cymunedol i rannu eu barn a'u safbwyntiau, gan sicrhau hefyd bod ganddynt y cyfle i godi unrhyw gwestiynau neu bryderon am blismona o fewn Dyfed-Powys.

Cynhaliwyd pob sesiwn trwy gyfrwng y Saesneg. Gwnaethpwyd addasiadau rhesymol trwy ddefnyddio cyfieithydd Iaith Arwyddion Prydain, a lluniwyd dogfennau print bras, a dogfennau wedi'u cyfieithu, ar gyfer grwpiau cymunedol gyda chyfranogwyr ag amhariad ar eu golwg, neu gyfranogwyr nad oeddent yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel eu prif iaith.

Cyfieithwyd y dogfennau i chwe iaith a amlygwyd gan gynrychiolwyr cymunedol cyn yr ymweliad, ac roeddent yn cynnwys amlinelliad o rôl a chyfrifoldebau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a rhestr o gwestiynau'r ymgynghoriad (wedi'u cynnwys yn Atodiad A).

Rhannwyd manylion cyswllt Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, cyfleoedd gwirfoddoli, y broses adolygu ac apelio cwynion, y gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd, a thaflen yn hyrwyddo'r arolwg ar-lein i gyd â'r grwpiau yn y sesiwn, er mwyn i gyfranogwyr allu ymchwilio iddynt ar ôl yr ymweliad.

Cynhaliwyd pob sesiwn grŵp ffocws ar adegau ac mewn lleoliadau a oedd yn gyfleus i'r grwpiau cymunedol. Roedd y sesiynau'n para rhwng 60 munud a 90 munud.

### 3.3 Sesiynau grwpiau ffocws gyda chynghorwyr sir a chynghorwyr tref a chymuned

Yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst, anfonwyd gohebiaeth at 252 o gynghorwyr trwy neges e-bost, a 312 o gynghorau tref a chymuned, yn eu gwahodd i fynd i un o nifer o sesiynau grŵp ffocws ar y Cynllun Heddlu a Throseddu, dan gadeiryddiaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn, ac wedi'i anelu at aelodau etholedig o'r cyhoedd.  Roedd y sesiynau grŵp ffocws yn cynnwys sesiynau a gynhaliwyd yn y lleoliadau canlynol;

Prifysgol Aberystwyth, Ceredigion

Coleg Sir Benfro, Sir Benfro (*canslwyd oherwydd diffyg diddordeb*)

Pencadlys yr Heddlu, Llangynnwr, Caerfyrddin

Coleg Hafren, Y Drenewydd, Powys

Theatr Brycheiniog, Aberhonddu, Powys

Sesiwn rhithwir, trwy gyfrwng Microsoft Teams.

### 3.4 Grŵp ffocws gyda'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr

Trefnwyd sesiwn grŵp ffocws rhithwir pwrpasol ar gyfer dioddefwyr, gyda holl aelodau Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr Dyfed-Powys yn cael eu gwahodd i gymryd rhan.  O'r 58 aelod, dewisodd dau aelod gymryd rhan ac ymuno yn y sesiwn rithwir i roi eu barn a'u hadborth.

### 3.6 Adborth gan Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Rhoddwyd cyfle i aelodau Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys roi adborth ar y Cynllun Heddlu a Throseddu newydd. Amlygodd eu sylwadau themâu pwysig megis amlygrwydd yr heddlu, ymgysylltu â'r gymuned, ymateb yn brydlon i ddigwyddiadau, a phwysigrwydd meithrin ymddiriedaeth ymhlith y boblogaeth leol.

**3.8 Fforwm Ymgysylltu ag Ieuenctid**

Darparodd y Fforwm Ymgysylltu ag Ieuenctid adborth i gefnogi'r blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer y Cynllun Heddlu a Throseddu. Mynegodd aelodau'r fforwm gytundeb â'r meysydd ffocws a amlinellwyd.

## 4. Y prif ganfyddiadau

### 4.1 Arolwg ar-lein

**Crynodeb:**

Casglodd yr arolwg ar-lein **659 o ymatebion**, gyda **609** yn Saesneg a **50** yn Gymraeg. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn byw ym **Mhowys** a **Sir Gaerfyrddin**, gan gyfrif am **71%** o'r holl ymatebion. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod yn teimlo'n **ddiogel** yn eu cymunedau, er bod rhai wedi mynegi pryderon ynghylch **amlygrwydd yr heddlu** ac **amseroedd ymateb**.


Pan ofynnwyd iddynt am y **blaenoriaethau** a amlinellwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, roedd **78%** yn cytuno â nhw, a gweddill yr ymatebwyr naill ai'n **anghytuno** â nhw neu **ddim yn siŵr**. Ymhlith prif themâu'r ymatebion oedd pwysigrwydd **diogelwch cymunedol**, **cefnogi dioddefwyr**, a'r angen am **fwy o bresenoldeb heddlu.**

Roedd hyder y cyhoedd yn Heddlu Dyfed-Powys **yn gadarnhaol ar y cyfan**, gyda mwyafrif yr ymatebwyr yn nodi eu bod **rhywfaint yn hyderus** neu'n **hynod o hyderus**. Fodd bynnag, roedd galwadau am welliannau mewn **cyfathrebu** a **chymorth iechyd meddwl**.

#### 4.1.1 Cwestiwn 1: Iaith

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa iaith yr oeddent am ei defnyddio i gwblhau'r arolwg.

- Cwblhaodd **50 o'r ymatebwyr** yr arolwg yn Gymraeg.
- Cwblhaodd **609 o'r ymatebwyr** yr arolwg yn Saesneg.




**Dadansoddiad canran:**


- Cwblhaodd **7.6%** o'r ymatebwyr yr arolwg yn Gymraeg.
- Cwblhaodd **92.4%** o'r ymatebwyr yr arolwg yn Saesneg.

### 4.1.2 <u>Cwestiwn 2: Ym mha ardal o'r gymuned ydych chi'n byw?</u>

**Cyfanswm yr ymatebion:**

- Powys: 196
- Sir Gaerfyrddin: 271
- Sir Benfro: 95
- Ceredigion: 38
- Anhysbys: 4
- Y tu allan i ardal yr heddlu: 55

**Cyfanswm: 659**




**Dadansoddiad:**

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn byw ym **Mhowys** a **Sir Gaerfyrddin**, sef cyfanswm o **467** o'r ymatebion, h.y. **71%** o'r holl ymatebwyr. Cyfrannodd **Sir Benfro** a **Cheredigion** nifer sylweddol o ymatebion hefyd, gyda **Sir Benfro** yn cynrychioli **95** o'r ymatebwyr a **Cheredigion** 38.

Roedd cyfran gymharol fach o ymatebwyr o'r tu allan i ardal yr heddlu, gyda **55** o ymatebwyr yn nodi hyn. Dim ond **pedwar** o ymatebwyr na ddarparodd god post dilys, ac mae'r rhain wedi'u marcio fel "anhysbys."

Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebion yn Saesneg, gyda **609 o ymatebion** wedi'u gwasgaru'n bennaf ar draws **Powys** a **Sir Gaerfyrddin**.

Cafwyd **50 o ymatebion** gan **siaradwyr Cymraeg**, gyda'r crynodiad mwyaf yn **Sir Gaerfyrddin**, ac yna **Ceredigion** a **Phowys**.

### 4.1.3 Cwestiwn 3: A ydych chi'n gyflogai Heddlu Dyfed-Powys?

**Cyfanswm yr ymatebion:**

- Ydw: 150
- Nac ydw: 509

Nid yw mwyafrif yr ymatebwyr **(77%)** wedi'u cyflogi gan Heddlu Dyfed-Powys.

### 4.1.4 Cwestiwn 6: Os ydych chi'n gyflogai Heddlu Dyfed-Powys, a ydych chi'n:

- Aelod o staff yr heddlu / Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu: 85
- Swyddogion yr heddlu: 66

**Dadansoddiad:**

Tynnodd y ddau grŵp o staff sylw at bryderon ynghylch **amlygrwydd yr heddlu** a'r angen am **brosesau mewnol** gwell, gyda phwyslais arbennig ar **amseroedd ymateb** a **chydweithredu** rhwng adrannau.

Ymhlith y **150 o weithwyr yn Heddlu Dyfed-Powys**, roedd yr ymatebion yn canolbwyntio'n aml ar **brosesau mewnol**, **heriau gweithredol** a **rheoli adnoddau**. Mynegodd llawer o aelodau staff awydd am well **cydweithredu rhwng adrannau** a **gwell cyfleoedd hyfforddi**, yn enwedig mewn meysydd fel **ymgysylltu â'r gymuned** ac **ymateb iechyd meddwl**.

Tynnodd yr aelodau o staff a ymatebodd i'r holiadur sylw at yr angen am fwy o **gymorth ac adnoddau ar y rheng flaen**, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle maent yn teimlo dan bwysau.

Roedd y **464 o ymatebwyr nad oeddent yn gweithio i'r heddlu** yn tueddu i ganolbwyntio mwy ar **ganfyddiadau allanol** o blismona, gyda llawer yn galw am **yr heddlu i fod yn fwy amlwg** yn y gymuned, a gwelliannau mewn **cyfathrebu â'r cyhoedd**.

**Dyfyniadau o'r ymatebion gan y staff:**

- "Fel aelod o staff, rwy'n ymwybodol o'r **straen** rydyn ni'n profi. Rydyn ni angen **rhagor o adnoddau** a **chefnogaeth well** ar gyfer **ymyriadau iechyd meddwl**."
- "Gellid gwella'r **prosesau mewnol**, yn enwedig o ran sut rydyn ni'n ymdrin ag **amseroedd ymateb** ac ymgysylltu â'r gymuned."

### 4.1.5 <u>Cwestiwn 4: A ydych chi'n cwblhau'r holiadur hwn ar eich rhan chi neu ar ran sefydliad?</u>

**Cyfanswm yr ymatebion:**

- Ar fy rhan i: **639**
- Ar ran sefydliad: **20**

**Dadansoddiad:**

Cwblhaodd mwyafrif yr ymatebwyr **(97%)** yr holiadur ar eu rhan eu hunain, gyda dim ond **20 o ymatebwyr** yn ei gwblhau ar ran sefydliad.

### 4.1.6 Cwestiwn 5: Os ydych chi'n cwblhau'r holiadur hwn ar ran sefydliad, rhowch enw'r sefydliad.

**Cyfanswm y sefydliadau: 12**

**Sefydliadau:**

1. Cyngor Cymuned Amroth
2. Cyngor Sir Caerfyrddin
3. Ymddiriedolaeth Pobl Ifanc Abergwaun ac Wdig Cyf
4. Ponthafren (atebion cryno gan ddefnyddwyr gwasanaeth, gwirfoddolwyr a staff)
5. Gwarchod Cymdogaeth | Dyfed-Powys | Neighbourhood Watch
6. Grŵp Colegau NPTC – Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill
7. Bugeiliaid Stryd y Drenewydd (Powys)
8. Coleg Sir Gâr
9. PLANED
10. Chwaraeon yr Urdd (Myrddin)
11. Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed
12. Ysgol Bro Teifi

**Dadansoddiad:**

Ymatebodd cyfanswm o **12 sefydliad** i'r ymgynghoriad. Rhoddodd sefydliadau a ymatebodd i'r arolwg bwyslais cryf ar yr angen am **bartneriaethau cydweithredol** rhwng yr heddlu a grwpiau cymunedol, gyda llawer yn galw am sianeli cyfathrebu gwell a **mentrau ar y cyd** gyda'r nod o leihau trosedd a chefnogi poblogaethau bregus.

Mynegodd sawl sefydliad, yn enwedig **cynghorau cymuned** a **grwpiau ieuenctid**, bryderon ynghylch **adnoddau a chyllid**, gan nodi y byddent yn croesawu **rhagor o ymdrechion ar y cyd** â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i fynd i'r afael â'r heriau hyn.


Amlygodd cynrychiolwyr **Gwarchod Cymdogaeth** bwysigrwydd **gwyliadwriaeth leol** a chynnal **cydberthynas gref** â **thimau heddlu lleol** i wella diogelwch cymunedol.

### 4.1.7 Cwestiwn 6: Gweler cwestiwn 3.

### 4.1.8 Cwestiwn 7: Pa mor ddiogel ydych chi'n teimlo yn eich cymuned?

**Cyfanswm yr ymatebion: 659**

- Diogel iawn: 213
- Rhywfaint yn ddiogel: 291
- Dim yn ddiogel nac yn anniogel: 77
- Rhywfaint yn anniogel: 57
- Anniogel iawn: 21




**Y prif themâu:**

**Amlygrwydd yr heddlu:**

Soniodd sawl ymatebydd eu bod yn teimlo'n **fwy diogel** oherwydd **presenoldeb rheolaidd yr heddlu** yn eu hardal.

- "Rwy'n gweld swyddogion yn patrolio'r ardal yn **rheolaidd**, sy'n gwneud i mi deimlo'n **fwy diogel**."
- "Mae **gweld yr heddlu** yn y gymuned yn tawelu meddwl."
- "Mae gweld heddlu yn aml yn gwneud i mi **deimlo'n ddiogel**"

**Cydlyniad cymunedol:**

Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at bwysigrwydd **cysylltiadau cymunedol cryf** o ran cyfrannu at eu **hymdeimlad o ddiogelwch**.

- "Rydyn ni'n adnabod ein cymdogion ac yn **edrych ar ôl ein gilydd**, sy'n ein helpu i deimlo'n **ddiogel**."
- "Mae cymdogion **yn ymddiried** yn ei gilydd ac yn **cadw llygad** ar ei gilydd, sy'n helpu i **deimlo'n ddiogel**"

**Pryderon mewn ardaloedd gwledig:**

Er bod llawer o ymatebwyr mewn ardaloedd trefol yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel, soniodd sawl un mewn ardaloedd gwledig eu bod yn teimlo'n fwy **anniogel** oherwydd **nad yw'r heddlu yn amlwg iawn** yn y gymuned.

- "Yn byw mewn ardal wledig, **dydw i ddim yn gweld yr heddlu'n aml**, ac mae hynny'n **peri pryder** i mi."
- "Gellid gwella **amser ymateb** yr heddlu mewn ardaloedd gwledig."
- "**Does dim llawer** o heddlu yn yr **ardal wledig** lle rydw i'n byw, ac mae'n gwneud i mi deimlo'n anniogel."

**Materion sy'n gysylltiedig ag unigolion ifanc:**

Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon am **ymddygiad gwrthgymdeithasol** ymhlith pobl ifanc yn eu cymuned, gan ei gysylltu â theimlad o fod yn **llai diogel**.

- "Mae grwpiau o bobl ifanc sy'n hongian o gwmpas yn achosi rhywfaint o **bryder**, yn enwedig gyda'r nos."
- "Hoffwn pe bai **rhagor o raglenni** i bobl ifanc i'w cadw'n brysur ac allan o drwbwl."
- "Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol gan bobl ifanc yn gwneud i mi deimlo'n fwy ansicr yn fy nghymuned."

**Dadansoddiad:**


Mae mwyafrif yr ymatebwyr (**76%**) yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau, gyda **213** yn teimlo'n **ddiogel iawn** a **291** yn teimlo **rhywfaint yn ddiogel**. Fodd bynnag, mae meysydd sy'n peri pryder o hyd, yn enwedig ymhlith y bobl hynny sy'n teimlo **rhywfaint yn anniogel** (**57 o'r ymatebwyr**) neu'n **anniogel iawn** (**21 o'r ymatebwyr**). Mae'r prif themâu yn dangos awydd i'r heddlu bod **yn fwy amlwg**, yn

enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn ogystal â rhagor o **raglenni ymgysylltu â phobl ifanc** i fynd i'r afael â phryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol.

### 4.1.9 Cwestiwn 8: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r blaenoriaethau a amlinellir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu?

**Cyfanswm yr ymatebion:**

- Cytuno: 512
- Anghytuno: 59
- Ddim yn siŵr: 88




### 4.1.10 Cwestiwn 9: Eglurwch pam yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r blaenoriaethau. A ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth ar goll?

**Y prif themâu:**

**Cefnogaeth ar gyfer heddlu sy'n weladwy i'r gymuned:**

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr **(78%)** yn cytuno â'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn y Cynllun Heddlu a Throseddu. Roedd llawer ohonynt yn cefnogi'r ffaith bod y cynllun yn canolbwyntio ar **amlygrwydd yr heddlu**, **atal troseddau**, ac **ymgysylltu â'r gymuned**.

- "Rwy'n cytuno â **chanolbwyntio ar** wella **presenoldeb yr heddlu** a mynd i'r afael â materion trosedd lleol."

- "Rwy'n teimlo'n fwy diogel o wybod bod presenoldeb heddlu cryf yn fy ardal i, a chredaf y dylai hyn fod yn **flaenoriaeth**."
- "Cytuno gyda'r **blaenoriaethau**, yn enwedig yn **gwella presenoldeb** yr heddlu yn y cymunedau."
- "Cytuno'n gryf gyda'r flaenoriaeth o **wella presenoldeb** yr heddlu."

**Yr angen am flaenoriaethau ychwanegol:**

Ymhlith y bobl hynny a oedd yn anghytuno neu'n ansicr, roedd awgrymiadau ar gyfer ychwanegu blaenoriaethau newydd. Thema a gododd dro ar ôl tro oedd y canfyddiad nad oedd **troseddau gwledig** yn cael digon o sylw. Soniodd sawl unigolyn hefyd am yr angen am well **cymorth iechyd meddwl**, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

- "Rwy'n teimlo bod angen **mwy o sylw** i faterion **sy'n ymwneud ag iechyd meddwl**."
- Rwy'n meddwl nad yw troseddau gwledig yn cael digon o **sylw**, ac mae angen mynd i'r afael â hyn yn y cynllun."
- "Dylai'r cynllun flaenoriaeth iechyd meddwl."
- Dylid rhoi mwy o sylw i droseddau gwledig a chynlluniau cymorth i'r rhai mwyaf bregus."

**Ansicrwydd ynghylch cyflawni:**

Mynegodd llawer o ymatebwyr **bryderon** ynghylch a ellid gweithredu'r blaenoriaethau a amlinellir o ystyried yr adnoddau presennol sydd ar gael, yn enwedig wrth ystyried cyfyngiadau **staffio** a **chyllid**.

- "Dydw i ddim yn siŵr sut bydd y blaenoriaethau hyn yn cael eu **cyflawni** gyda'r **adnoddau presennol**."
- Rwy'n **pryderu does dim digon o gyllid** na staff i wireddu'r blaenoriaethau hyn."
- "Ddim yn siŵr sut mae'r **blaenoriaethau** hyn yn mynd i gael eu cyflawni gyda'r adnoddau presennol."
- "Nid wyf yn siŵr sut bydd y blaenoriaethau hyn yn cael eu cyflawni gyda'r **adnoddau presennol**."

**Dadansoddiad:**


Yn gyffredinol, dangosodd mwyafrif yr ymatebwyr **gefnogaeth gref** i'r blaenoriaethau a amlinellir, yn enwedig y pwyslais ar gynyddu **amlygrwydd yr heddlu**. Mae mwyafrif yr ymatebwyr **(78%)** yn cytuno â'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu, gan adlewyrchu cefnogaeth eang yn y gymuned. Fodd

bynnag, mynegodd cyfran o'r ymatebwyr (**9% yn anghytuno** ac **13% yn ansicr**) **bryderon** neu **awgrymiadau**, gyda **gwasanaethau iechyd meddwl** a **throseddau gwledig** yn themâu cyson o ran y meysydd i'w gwella. Roedd pryderon hefyd ynghylch **ymarferoldeb** gweithredu'r blaenoriaethau o ystyried y **cyfyngiadau** tybiedig ar adnoddau.

### 4.1.11 Cwestiwn 10: Rhowch wybod i ni pa flaenoriaethau sydd bwysicaf i chi.

**Cyfanswm yr ymatebion: 659**

- Cefnogi cymunedau diogel ac atal troseddau: **478**
- Sicrhau cyfiawnder: **110**
- Cefnogi dioddefwyr ac atal niwed: **71**




**Dadansoddiad:**

Dewisodd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr (**73%**) **cefnogi cymunedau diogel ac atal troseddau** fel eu prif flaenoriaeth. Mae hyn yn dangos mai sicrhau diogelwch cymunedol yw'r pryder mwyaf arwyddocaol i bobl o hyd, gyda llawer o ymatebwyr yn canolbwyntio ar gynnal **amlygrwydd yr heddlu**, **atal troseddau**, a mynd i'r afael â **materion troseddu lleol**.

Nodwyd **sicrhau cyfiawnder** fel yr ail flaenoriaeth bwysicaf gan **17%** o'r ymatebwyr. Mae hyn yn amlygu awydd y cyhoedd am system gyfiawnder effeithlon lle mae troseddwyr yn cael eu dwyn i gyfrif, gan sicrhau prosesau teg ac amserol i bawb dan sylw.

Dewiswyd **cefnogi dioddefwyr ac atal niwed** gan **10%** o'r ymatebwyr, gan nodi er ei fod yn dal yn bwysig, ei fod yn llai pwysig o'i gymharu â diogelwch yn y gymuned a chyfiawnder. Roedd ymatebwyr yn y grŵp hwn yn aml yn pwysleisio pwysigrwydd darparu cymorth gwell i unigolion bregus, a sicrhau bod dioddefwyr yn cael mynediad at wasanaethau sy'n atal niwed pellach.

### 4.1.12 Cwestiwn 11: Rhowch eich rheswm dros ddewis y flaenoriaeth hon.

**Cyfanswm yr ymatebion: 456**

**Dadansoddiad:**

Eglurodd llawer o'r ymatebwyr a wnaeth flaenori c**efnogi cymunedau diogel ac atal troseddau (73%)** eu bod wedi'u hysgogi gan awydd i deimlo'n fwy diogel yn eu cymunedau. Cyfeiriodd nifer ohonynt at eu pryderon ynghylch y lefel gynyddol o **ymddygiad gwrthgymdeithasol**, a'r angen am **batrolau heddlu amlwg** fel rhesymau dros eu dewis. Roedd y gred y byddai **presenoldeb heddlu** cryf a **gweithredol** yn atal troseddau ac yn hybu diogelwch y cyhoedd yn thema a gododd dro ar ôl tro.

- "Mae presenoldeb yr heddlu mewn **ardaloedd gwledig** yn **brin**. Mae angen i'r heddlu bod yn fwy **amlwg** yn ein cymuned i deimlo'n ddiogel."
  "Mae angen patrolau **amlach** i atal **ymddygiad gwrthgymdeithasol** yn ein cymdogaethau."
- "Mae presenoldeb yr heddlu'n brin yn ein **hardal wledig**. Mae angen mwy o weledедd er mwyn i ni **deimlo'n ddiogel**."

Pwysleisiodd ymatebwyr a ganolbwyntiodd ar **sicrhau cyfiawnder** bwysigrwydd sicrhau **tegwch ac atebolrwydd** yn y system gyfiawnder. Roedd llawer o sylwadau'n adlewyrchu'r angen am **gyfiawnder amserol,** ac i droseddwyr gael eu dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd, yn enwedig mewn perthynas â throseddau difrifol. Teimlai nifer o ymatebwyr y byddai **sicrhau cyfiawnder** yn **helpu i annog ymddiriedaeth** rhwng y cyhoedd a'r broses o orfodi cyfreithiau.

- "Mae angen **rhagor o wasanaethau cymorth a gofal dilynol** ar **bobl sydd wedi dioddef** cam-drin domestig."
- "Dylid canolbwyntio mwy ar **atal niwed** yn hytrach nag ymateb i ddigwyddiadau **ar ôl iddyn nhw ddigwydd**."
- "Mae angen mwy o **wasanaethau cymorth** ar gyfer dioddefwyr trais domestig, yn ogystal â **dilyniant i'r gwasanaeth**."

Roedd y bobl hynny a ddewisodd **cefnogi dioddefwyr ac atal niwed** yn aml yn sôn am eu pryderon ynghylch **cymorth iechyd meddwl** a sicrhau bod dioddefwyr yn cael mynediad at wasanaethau priodol. Tynnodd nifer ohonynt sylw at bwysigrwydd **diogelu unigolion bregus**, ac atal niwed pellach neu ddioddef aml-droseddau yn eu herbyn, gan alw am adnoddau ychwanegol i gynorthwyo'r bobl hynny mewn angen.

- "Mae angen erlyn troseddwyr yn **gyflymach**. Mae'r system yn **rhy araf**, ac mae'n teimlo fel bod **cyfiawnder** yn cael ei ohirio."
- "Mae angen canolbwyntio mwy o sylw ar ddelio â **throseddau lefel isel** cyn iddynt fynd yn fwy difrifol."
- "Mae angen i **droseddwyr gael** eu herlyn yn gyflymach. Mae'r system yn rhy araf ac mae'n teimlo fel bod **cyfiawnder** yn cael ei oedi."

### 4.1.13 Cwestiwn 12: A oes gennych chi unrhyw syniadau ar sut y gall Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu fynd i'r afael â'r materion hyn?

**Cyfanswm yr ymatebion: 481**

**Dadansoddiad:**

Rhannodd yr ymatebwyr amrywiaeth o syniadau ar sut y gallai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu fynd i'r afael â'r prif faterion. Mae'r prif themâu o'r ymatebion yn cynnwys:

**Cynyddu amlygrwydd yr heddlu:** Tynnodd nifer o'r ymatebwyr sylw at yr angen am **bresenoldeb heddlu** mwy **amlwg** ar y strydoedd, yn enwedig mewn **ardaloedd gwledig** ac **anghysbell**. Ystyriwyd bod hyn yn hanfodol i atal troseddau a meithrin **ymddiriedaeth y gymuned** yn yr heddlu.

- "Mae angen i ni weld rhagor o swyddogion ar batrolau yn y gymuned. Mae **presenoldeb heddlu amlwg** yn atal troseddau, ac yn gwneud i **bobl deimlo'n fwy diogel**."
- "Byddai **patrolau mwy rheolaidd** mewn ardaloedd â lefelau uchel o **ymddygiad gwrthgymdeithasol** yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol."
- "Mae angen gweld mwy o heddlu yn yr ardaloedd lleol i leihau troseddu a chynyddu diogelwch."

**Ymgysylltu â'r gymuned:** Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd mentrau cryfach ar gyfer **ymgysylltu â'r gymuned**. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys cyfarfodydd neuadd y dref rheolaidd, sianeli **cyfathrebu** gwell, a chydweithredu â sefydliadau lleol i sicrhau bod trigolion yn teimlo eu bod yn cael eu clywed ac yn cael eu cynnwys mewn mentrau.

- "Dylai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r heddlu gynnal rhagor o gyfarfodydd â'r cyhoedd i glywed gan y gymuned yn uniongyrchol a mynd i'r afael â'n pryderon."
- "Mae angen cyfathrebu a thryloywder gwell. Mae angen i ni wybod pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd a pham."

**Rhaglenni allgymorth ar gyfer pobl ifanc:** Cynigiodd rhai ymatebwyr y gallai **canolbwyntio** ar raglenni allgymorth ar gyfer pobl ifanc, megis **mentrau addysgol** a gweithgareddau i atal **ymddygiad gwrthgymdeithasol**, helpu i fynd i'r afael â materion sylfaenol mewn cymunedau.

- "Rydyn ni angen rhagor o raglenni ar gyfer pobl ifanc i'w cadw allan o drwbl ac i roi cyfleoedd cadarnhaol iddyn nhw."
- "Mae ymyrraeth gynnar yn hollbwysig. Os byddwn ni'n ymgysylltu â phobl ifanc yn gynnar, gallwn ni atal llawer o faterion cyn iddyn nhw ddatblygu'n broblemau mwy."

**Cymorth iechyd meddwl:** Roedd cyfran **sylweddol** o'r ymatebwyr o blaid gwasanaethau **iechyd meddwl** gwell, gan awgrymu bod angen **cydweithredu** gwell rhwng yr heddlu a gweithwyr **iechyd meddwl** proffesiynol. Roedd mwy o hyfforddiant i swyddogion ar sut i ymdrin ag argyfyngau **iechyd meddwl** hefyd yn awgrym cyffredin.


- "Dylai **cymorth iechyd meddwl** gael ei flaenoriaethu. Byddai **rhagor o adnoddau'n** helpu i atal llawer o'r materion rydyn ni'n eu gweld rhag gwaethygu'n broblemau mwy."
- "Mae angen i'r heddlu **gydweithio** mwy â gwasanaethau **iechyd meddwl** i gefnogi unigolion mewn argyfwng yn well."
- Dylai'r heddlu **gydweithio â gwasanaethau** iechyd meddwl i helpu pobl fregus."

### 4.1.14 Cwestiwn 13: Faint o hyder sydd gennych chi yn Heddlu Dyfed-Powys?

**Cyfanswm yr ymatebion: 659**

**Dadansoddiad o'r lefel o hyder:**

- Llawer o hyder: 74
- Eithaf tipyn o hyder: 298
- Ddim yn siŵr: 136
- Ychydig o hyder: 98
- Dim hyder o gwbl: 53




**Dadansoddiad:**


Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr **(56%)** bod ganddynt (naill ai **"llawer o hyder"** neu **"eithaf tipyn o hyder"**) yn Heddlu Dyfed-Powys. Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol (**24%**) yn ansicr, a mynegodd **22%** bod ganddynt ddim hyder o gwbl.

**4.1.15 <u>Cwestiwn 14: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol?</u>**

**<u>"Rwy'n hyderus bod Heddlu Dyfed-Powys yn trin pawb yn deg, waeth pwy ydyn nhw."</u>**

**Cyfanswm yr ymatebion: 656**

- Cytuno'n llwyr: 112 (17%)
- Cytuno: 303 (46%)
- Ddim yn siŵr: 135 (21%)
- Anghytuno: 69 (10%)
- Anghytuno'n llwyr: 37 (6%)




4.1.16 <u>**Cwestiwn 15: Rhowch ychydig o fanylion am yr hyn sydd wedi dylanwadu ar eich lefel o ymddiriedaeth a hyder yn Heddlu Dyfed-Powys**</u>

**Cyfanswm yr ymatebion: 444**

**Ymhlith y prif themâu o'r sylwadau, nodwyd y canlynol:**

**Profiad personol cadarnhaol:**

Roedd nifer o'r ymatebwyr a fynegodd lefelau uchel o **ymddiriedaeth** a **hyder** yn Heddlu Dyfed-Powys yn priodoli hyn i ryngweithio personol **cadarnhaol** gyda swyddogion. Amlygodd yr ymatebwyr hyn achosion pan oedd yr heddlu wedi bod yn **agos-atoch, yn broffesiynol ac yn gymwynasgar**.

- "Rwy bob amser wedi eu hystyried yn **gyfeillgar** ac yn **broffesiynol** yn fy nghymuned i."
- "Rwy'n **ymddiried** yn yr heddlu gan fy mod wedi cael **profiad** da bob tro yr oeddwn mewn angen."

**Amlygrwydd yr heddlu:**

Soniodd nifer sylweddol o'r ymatebwyr a oedd â **hyder** yn Heddlu Dyfed-Powys am **weld swyddogion** yn rheolaidd yn eu cymunedau lleol, ac roedd hyn yn **rhoi sicrwydd iddynt** am ddiogelwch ac atal troseddau.

- "Rwy'n gweld swyddogion **ar batrôl yn rheolaidd**, ac mae'n gwneud i mi deimlo'n **ddiogel**."
- "Mae **gweld heddweision** yn rheolaidd yn fy ardal yn gwneud i mi deimlo'n fwy diogel."

**Pryderon ynghylch amseroedd ymateb:**

Roedd ymatebwyr a fynegodd **lefelau is** o ymddiriedaeth a hyder yn aml yn cyfeirio at amseroedd ymateb araf yr heddlu neu **weithgarwch dilynol gwael ar ôl adrodd am ddigwyddiadau**. Teimlai'r ymatebwyr hyn fod yr oedi cyn cael ymateb wedi gostwng eu **hyder** yn effeithiolrwydd yr heddlu.

- "Mae'r amser ymateb **yn aml yn araf**, ac rwy'n teimlo does **dim byd yn digwydd** ar ôl gwneud adroddiad."
- "**Mae'r amseroedd ymateb** yn rhy araf, ac rwy'n teimlo nad oes digon o weithredu wedi'r digwyddiad."

**Canfyddiad o ragfarn neu anghysondeb:**

Cododd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch **rhagfarn bosibl** yn y ffordd y mae'r heddlu'n ymdrin â sefyllfaoedd penodol, yn enwedig o ran **grwpiau lleiafrifol** neu bobl mewn ardaloedd llai cefnog. **Dylanwadodd** hyn ar eu lefel o **ymddiriedaeth** a **hyder**.

- "Rwy'n **poeni** am y ffordd y mae'r heddlu'n trin pobl mewn **ardaloedd mwy difreintiedig** o gymharu â'r rhai cyfoethocach."
- "Rwy'n poeni am sut mae'r heddlu yn trin pobl o **gefndiroedd ethnig** lleiafrifol."

### 4.1.17 Cwestiwn 16: A oes unrhyw beth y gallai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ei wneud i wella hyn?

**Cyfanswm yr ymatebion: 420**

**Y prif themâu:**

**Cynyddu amlygrwydd yr heddlu:**

Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y dylai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu **ganolbwyntio** ar **gynyddu amlygrwydd** swyddogion heddlu mewn cymunedau lleol, fel ffordd o **feithrin ymddiriedaeth** a **sicrhau diogelwch y cyhoedd**.

- "Byddai **mwy o bresenoldeb heddlu** mewn ardaloedd gwledig yn gwneud i mi deimlo'n fwy diogel."
- "Mae angen mwy o heddweision yn yr **ardaloedd** gwledig."

**Gwella cyfathrebu ac ymgysylltu:**

Galwodd nifer o'r ymatebwyr am **gyfathrebu gwell** rhwng Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a thrigolion lleol. Roeddent yn argymell **diweddariadau rheolaidd** ar **weithgareddau'r heddlu ac ymgynghoriadau** i sicrhau bod y Comisiynydd yn parhau i **gysylltu ag anghenion y gymuned**.

- "Hoffwn i weld y Comisiynydd yn ymgysylltu mwy â'r cyhoedd trwy gyfarfodydd a diweddariadau."
- "Mae angen mwy o gyfathrebu a chyfarfodydd rheolaidd i gadw'r gymuned yn wybodus."

**Amseroedd ymateb cyflymach:**

Pwysleisiodd ymatebwyr yr angen am amseroedd ymateb **cyflymach** gan yr heddlu pan adroddir am ddigwyddiadau. Roeddent yn teimlo y dylai'r Comisiynydd **flaenoriaethu gwella** gallu'r heddlu i ymateb **yn gyflym i argyfyngau** a throseddau y rhoddwyd gwybod amdanynt i'r heddlu.

- "Gwella'r amseroedd ymateb, yn enwedig ar gyfer galwadau brys."
- "Rhaid gwella'r amseroedd ymateb ar gyfer galwadau brys."

**Buddsoddi mewn plismona cymunedol a gwasanaethau cymorth:**

Awgrymodd rhai ymatebwyr **fuddsoddi mwy** mewn plismona cymunedol, gan ganolbwyntio ar **fesurau mwy rhagweithiol ac ataliol**. Roeddent hefyd yn **annog y gwasanaethau cymorth** i helpu unigolion **bregus** yn y gymuned, megis y bobl hynny yr effeithir arnynt gan faterion iechyd meddwl.

- "**Mwy o fuddsoddiad mewn rhaglenni cymorth cymunedol** a **gwasanaethau iechyd meddwl**."
- "Mae angen mwy o fuddsoddiad mewn **gwasanaethau cymunedol** ac iechyd meddwl."

**Triniaeth decach a chydraddoldeb:**

Pwysleisiodd nifer o'r ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod pob unigolyn, waeth beth fo'i gefndir, yn cael ei drin **yn deg ac yn gyfartal gan yr heddlu**. Teimlent y dylai'r Comisiynydd gymryd camau i sicrhau bod swyddogion yn cael hyfforddiant yn ymwneud â **chydraddoldeb a gwrth-wahaniaethu**.

- "Gwnewch yn siŵr bod y swyddogion yn cael hyfforddiant i drin pawb yn deg ac yn gyfartal."

- "Gwnewch yn siŵr fod yr heddlu'n trin pawb yn deg ac yn gyfartal, waeth beth fo'u cefndir."

### 4.1.18 Cwestiwn 17: Sut ydych chi'n meddwl y gall Heddlu Dyfed-Powys a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ymgysylltu'n well â thrigolion a sefydliadau cymunedol?

**Cyfanswm yr ymatebion: 456**

**Y prif themâu:**

**Cynyddu amlygrwydd a phresenoldeb yr heddlu yn y gymuned:**

Argymhellodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr y dylai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ochr yn ochr â'r heddlu, **gynyddu eu presenoldeb mewn digwyddiadau cymunedol, cyfarfodydd**, a thrwy **batrolau ar droed**. Roeddent yn dadlau y byddai hyn yn cryfhau'r berthynas rhwng y cyhoedd a'r heddlu.

- "Dylai'r heddlu fynd i fwy o gyfarfodydd a digwyddiadau lleol i ymgysylltu â'r gymuned yn uniongyrchol."
- "Mae angen presenoldeb rheolaidd mewn cyfarfodydd cymunedol i wella ymgysylltiad."

**Gwella cyfathrebu digidol:**

Teimlai llawer o'r ymatebwyr y dylai'r Comisiynydd a'r heddlu ganolbwyntio ar **ymgysylltu'n well â'r cyhoedd ar-lein**, yn enwedig trwy **blatfformau cyfryngau cymdeithasol, gwefannau a negeseuon e-bost**. Roeddent yn awgrymu **creu cylchlythyrau neu ddiweddariadau fideo rheolaidd** i roi gwybod i drigolion am fentrau a gweithgareddau'r heddlu.

- "Byddai diweddariadau rheolaidd trwy'r cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau yn helpu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni."
- "Mae angen diweddariadau rheolaidd ar gyfryngau cymdeithasol a bwletinau i gadw pobl yn wybodus."

**Cynyddu cydweithrediad â sefydliadau lleol:**

Roedd yr ymatebwyr yn annog **mwy o gydweithredu** rhwng **yr heddlu a sefydliadau lleol, elusennau a gwasanaethau cymorth**. Roeddent yn credu y byddai gweithio'n agos gyda'r grwpiau hyn yn galluogi'r heddlu i fynd i'r afael â **materion cymunedol penodol** yn fwy effeithiol.

- "Cydweithiwch ag elusennau a sefydliadau lleol i fynd i'r afael â materion cymunedol."

- "Cydweithiwch â sefydliadau lleol i fynd i'r afael â phroblemau cymunedol."

**Mwy o ymgysylltu wyneb yn wyneb:**

Awgrymodd nifer o bobl y dylai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a swyddogion **ymgysylltu'n** amlach â thrigolion drwy **ryngweithio wyneb yn wyneb, cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'r cyhoedd, sesiynau holi ac ateb, a chymorthfeydd galw heibio** lle gall trigolion rannu eu pryderon.

- "Rydyn ni angen mwy o gyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd lle gallwn ni leisio pryderon."
- "Mwy o gyfarfodydd cyhoeddus wyneb yn wyneb lle gall pobl leisio pryderon."

**Gwella sianeli adborth:**

Teimlai'r ymatebwyr y dylai fod **systemau gwell** ar waith i **gasglu adborth** gan drigolion. Awgrymodd rhai unigolion **ffurflenni neu arolygon ar-lein dienw** fel ffordd i bobl rannu eu barn heb deimlo dan fygythiad.

- "Crëwch ffurflenni adborth ar-lein sy'n ein galluogi i rannu pryderon yn ddienw."
- "Mae angen ffurflenni adborth ar-lein ar gyfer rhannu pryderon yn ddienw."

### 4.1.19 <u>Cwestiwn 18: A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei rannu â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ynghylch diogelwch cymunedol, plismona a chyfiawnder?</u>

**Cyfanswm yr ymatebion: 325**

**Y prif themâu:**

**Pryderon am adnoddau'r heddlu:**

Mynegodd nifer o'r ymatebwyr bryderon ynghylch **argaeledd** a dosbarthiad adnoddau'r heddlu. Nodwyd yr **heriau** a achosir gan **brinder staff** a galwyd am ragor o swyddogion, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

- "Does **dim digon** o swyddogion mewn ardaloedd gwledig, ac mae'n gwneud i ni deimlo'n **anniogel**."
- "Nid oes digon o swyddogion mewn ardaloedd gwledig, ac mae hyn yn gwneud i ni deimlo'n agored i niwed."

**Plismona cymunedol ac amlygrwydd:**

Soniodd sawl sylw am **bwysigrwydd** cael **presenoldeb heddlu amlwg** mewn cymunedau lleol i atal troseddau ac i **feithrin ymddiriedaeth**.

- "Mae **patrolau rheolaidd** a phresenoldeb yn y gymuned yn helpu pobl i deimlo'n fwy diogel."
- "Mae **presenoldeb** rheolaidd yn **y gymuned** yn helpu pobl i deimlo'n fwy diogel."

**Mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â chyffuriau:**

Tynnwyd sylw at droseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau fel problem sy'n cynyddu mewn llawer o ardaloedd, gyda'r ymatebwyr yn galw am **fesurau gorfodi a mesurau ataliol llymach**.

- "Mae angen gwneud mwy i fynd i'r afael â defnyddio a delio cyffuriau yn ein cymuned."
- "Mae angen gwneud mwy i fynd i'r afael â defnyddio a gwerthu cyffuriau yn ein cymuned."

**Gwella amseroedd ymateb:**

Teimlai rhai ymatebwyr y dylai'r heddlu **wella** ei **amseroedd ymateb** i alwadau brys, yn enwedig mewn **ardaloedd** anghysbell neu **wledig**.


- "Mae angen i'r amseroedd ymateb i ddigwyddiadau fod yn gyflymach, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig."
- "Mae angen amseroedd ymateb **cyflymach i ddigwyddiadau**, yn enwedig mewn **ardaloedd gwledig**."

**Cydweithredu ag asiantaethau eraill:**

Roedd awydd am **gydweithredu cryfach** rhwng yr heddlu ac asiantaethau lleol eraill, megis **gwasanaethau iechyd meddwl** a **sefydliadau cymunedol**, i gefnogi **unigolion bregus** yn well.

- "Cydweithiwch â gwasanaethau lleol i **gefnogi pobl fregus**, yn enwedig y bobl hynny sydd â phroblemau iechyd meddwl."
- "Cydweithiwch â **gwasanaethau lleol** i gefnogi pobl sy'n agored i niwed, yn enwedig y rhai sydd â **phroblemau iechyd meddwl**."

### 4.1.20 Cwestiwn 19: Beth yw eich grŵp oedran?




**Cyfanswm yr ymatebion: 659**

- O dan 18 oed: 33
- 18-24 oed: 24
- 25-34 oed: 59
- 35-44 oed: 115
- 45-54 oed: 129
- 55-64 oed: 113
- 65 oed neu'n hŷn: 154
- Gwell gennyf beidio â dweud: 32

**Dadansoddiad:**

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn perthyn i'r categorïau oedran hŷn, gyda **154 o ymatebwyr (23%) yn 65 oed neu'n hŷn**, a **129 o ymatebwyr (20%)** yn y grŵp **45 i 54 oed**. Roedd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr hefyd yn y grŵp **35 i 44 oed**, sef **115** o ymatebwyr **(17%)**.

Roedd llai o gynrychiolaeth o'r grwpiau oedran iau, gyda **59 o ymatebwyr (9%)** rhwng **25 a 34 oed**, a dim ond **24 o ymatebwyr (4%)** rhwng **18 a 24 oed**. Roedd **33 o ymatebwyr** (5%) o dan **18 oed**, ac roedd yn well gan **32 o ymatebwyr (5%)** beidio â datgelu eu hoedran.

Mae hyn yn awgrymu bod mwyafrif yr adborth yn dod gan unigolion **35 oed** neu'n hŷn.

### 4.1.21 <u>Cwestiwn 20: Beth yw eich hunaniaeth o ran rhywedd?</u>

**Cyfanswm yr ymatebion: 658**

- Gwryw: 299
- Benyw: 295
- Anneuaidd:2
- Mae'n well gan yr unigolyn ddefnyddio term arall: 1
- Gwell gennyf beidio â dweud: 61

**Dadansoddiad:**

Mae'r ymatebion yn dangos dosbarthiad rhywedd **eithaf cytbwys**, gyda **45%** yn nodi eu bod yn **wrywod** a **44%** yn **fenywod**. Dewisodd nifer fach **(10%)** beidio â datgelu eu hunaniaeth o ran rhywedd.

### 4.1.22 <u>Cwestiwn 21: Beth yw eich ethnigrwydd?</u>

**Cyfanswm yr ymatebion: 658**

**Dadansoddiad o ethnigrwydd:**

- Gwyn – Prydeinig: 594
- Gwyn Gwyddelig: 6
- Gwyn – Sipsi a Theithiwr Gwyddelig: 1
- Unrhyw gefndir gwyn arall: 4
- Gwyn a Du Caribïaidd: 2
- Gwyn ac Asiaidd: 1
- Asiaidd – Prydeinig: 2
- Asiaidd – Indiaidd: 2
- Du – Prydeinig: 1
- Du – Affricanaidd: 1
- Tsieineaidd: 1
- Unrhyw grŵp ethnig arall: 3
- Gwell gennyf beidio â dweud: 40

**Dadansoddiad:**

Nododd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod yn **Wyn Prydeinig (90%)**, gan gyfrif am bron pob ymateb. Roedd cynrychiolaeth gyfyngedig o grwpiau ethnig eraill, gyda dim ond dyrnaid o ymatebion yn nodi grwpiau ethnig Asiaidd-Prydeinig, Asiaidd-

Indiaidd, Du-Prydeinig a grwpiau ethnig eraill. Mae hyn yn adlewyrchu cyfansoddiad demograffig rhanbarth Dyfed-Powys.

### 4.1.23 Cwestiwn 22: A oes gennych chi unrhyw fath o anabledd?

**Cyfanswm yr ymatebion: 656**

- Ydw: 101
- Nac ydw: 486
- Gwell gennyf beidio â dweud: 69


**Dadansoddiad:**

Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr **(74%)** nad oedd ganddynt unrhyw fath o anabledd. Nododd tua **15%** o'r ymatebwyr fod ganddynt anabledd, ac roedd yn well gan **11%** beidio â datgelu'r wybodaeth hon.

### 4.1.24 Cwestiwn 23: Beth yw eich cyfeiriadedd rhywiol?

**Cyfanswm yr ymatebion: 659**

- Heterorywiol: 520
- Deurywiol: 11
- Hoyw: 3
- Lesbiaidd: 5
- Arall: 20
- Gwell gennyf beidio â dweud: 100




**Dadansoddiad:**


Nododd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod yn **heterorywiol**, gyda chanran sylweddol, **78%** (517 o ymatebwyr), yn dewis y categori hwn. Roedd llai o gynrychiolaeth o gyfeiriadedd rhywiol eraill, heb unrhyw ymatebydd yn nodi eu bod yn hoyw, yn lesbiaidd neu'n ddeurywiol yn yr ymatebion Cymraeg, a dim ond cyfran fach ar draws y data llawn (sy'n dynodi bod bwlch yn yr ymatebion ar gyfer cynrychiolaeth LHDTC+). Dewisodd cyfanswm o **15%** (100 o ymatebwyr) beidio â datgelu eu cyfeiriadedd rhywiol, sy'n awgrymu bod rhywfaint o bryder ynghylch preifatrwydd neu fod gwell ganddynt beidio â rhannu'r wybodaeth hon.

### 4.2 Rho dy farn (ymgynghoriad mewn digwyddiadau ymgysylltu)

Roedd cynrychiolwyr Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi sicrhau bod cyfle i'r cyhoedd rannu eu barn mewn digwyddiadau yn y gwanwyn a'r haf a gynhaliwyd yn ardal Dyfed-Powys, yn ystod y cyfnod ymgynghori ar gyfer Cynllun Heddlu a Throseddu 2024. Dosbarthwyd y ffurflenni canlynol mewn digwyddiadau, yn ogystal â manylion am yr arolwg ymgynghori ar-lein a chyfarfodydd y grŵp ffocws:





Daeth cyfanswm o 230 o ymatebion i law drwy'r ffurflenni hyn. O'r 230 o ymatebion, roedd 176 gan drigolion Dyfed-Powys.  Ni wnaeth rhai ymatebwyr ateb pob un o'r tri chwestiwn ar y ffurflen. Cynhaliwyd dadansoddiad data ar ymatebion trigolion Dyfed-Powys yn unig, i adlewyrchu barn y cymunedau y mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn eu cynrychioli.




**Dadansoddiad:**

## <u>4.2.1 Beth sy'n dda am dy ardal di?</u>

O’r 172 o sylwadau a amlygodd beth oedd yn dda am eu hardal, rhoddodd 44% (76 o ymatebion) adborth yn ymwneud â’u cymuned, neu deimladau am fod yn ddiogel yn eu cymuned, gan roi adborth fel **“cymuned ddiogel, gyfeillgar”** ac **“mae’n ardal ddiogel”**. Dyma'r brif thema a nodwyd yn y cwestiwn hwn. Er bod cyfradd ymateb gymharol uchel o ran defnyddio **adnoddau lleol**, ac argaeledd yr adnoddau hyn, roedd llawer o'r sylwadau yn ymwneud ag **adnoddau naturiol**, megis traethau a thirweddau gwledig.





## 4.2.2 Beth sydd ddim mor dda am dy ardal di?

**Dadansoddiad a'r prif ganfyddiadau:**

O'r 156 o sylwadau a amlygodd yr hyn nad oedd cystal am eu hardal, soniodd 31% (48 o ymatebion) am **y lefel o drosedd** ac ymddygiad gwrthgymdeithasol fel pethau negyddol yn eu hardal. Roedd prif themâu'r ymatebion hyn yn ymwneud â **goryrru, dosbarthu a defnyddio sylweddau, fandaliaeth, ac ymddygiad gwrthgymdeithasol**. Roedd y sylwadau ynghlwm wrth yr ymatebion wedi'u hanelu'n benodol at **y cenedlaethau iau**, gyda sylwadau fel "ymddygiad gwrthgymdeithasol – pobl ifanc yn eu harddegau a phobl ifanc sydd wedi diflasu". Soniodd 14% (22 o ymatebion) o'r ymatebwyr am **amlygrwydd yr heddlu**, gan ddisgrifio "diffyg presenoldeb heddlu" a "dim heddlu yn yr ardal". Hwn oedd yr ail fater a nodwyd fwyaf ar ôl y lefelau o drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd **fêpio** yn gategori ychwanegol ar gyfer y cwestiwn hwn a'r cwestiwn nesaf, gan fod y defnydd o fêpiau gan bobl ifanc yn bryder penodol a godwyd gan unigolion yn y categorïau oedran 18 oed neu'n iau a rhwng 18 a 24 oed.


Er bod yr ymatebion 'amherthnasol' yn ymddangos yn gymharol uchel ar gyfer y cwestiwn hwn, a'r cwestiwn nesaf, roeddent yn cynnwys ymatebion fel "dim byd mewn gwirionedd" neu "lawer". Crëwyd y categori **Ystyriaeth/Ymyrraeth y llywodraeth** hefyd ar gyfer nifer gymharol uchel o ymatebion megis "ffyrdd gwell" a "thai fforddiadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol".




## 4.2.3 Pa newidiadau fyddet ti'n hoffi gweld?

**Dadansoddiad a'r prif ganfyddiadau:**

O'r 156 o sylwadau a oedd yn argymell newidiadau arfaethedig yr hoffent eu gweld yn eu hardal, tynnodd 36% (56 o ymatebion) o'r cyhoedd sylw at **gynyddu amlygrwydd yr heddlu**, gyda 13% ychwanegol (20 ymateb) yn dadlau y dylai fod **darpariaeth well ar gyfer pobl ifanc a/neu y dylid ymgysylltu â phobl ifanc yn well**. Rhannwyd sylwadau megis "mwy o ryngweithio gyda phobl ifanc, digwyddiadau grŵp rheolaidd ac ati" a "cynyddu presenoldeb yr heddlu mewn ardaloedd cyhoeddus i blant".




Mae'r ymatebion yn ymwneud â phlismona a throseddu yn dangos mai'r themâu mwyaf cyffredin gan unigolion sy'n byw yng nghymunedau Dyfed-Powys oedd y canlynol:

- **teimlo'n ddiogel** ar y cyfan yn eu hardal,

- hoffent weld **gostyngiad yn nifer y troseddau**,
- **presenoldeb heddlu uwch**
- **rhagor o gyfleoedd i gefnogi pobl ifanc, ac i ymgysylltu â nhw, fel dull ymyriad cynnar.** Roedd hyn yn arbennig o bwysig ymhlith ymatebwyr o dan 18 oed, a oedd yn pryderu am unigolion yn camddefnyddio sylweddau. Tynnwyd sylw at raglen ysgolion fel ffordd gadarnhaol o wneud hyn, ond soniodd llawer o'r ymatebwyr fod angen ymgysylltu mwy â phobl ifanc yn y gymuned.

### 4.3 Grwpiau ffocws gyda grwpiau lleiafrifol

Roedd mwyafrif yr unigolion yn y grwpiau ffocws hyn yn cytuno y dylai'r blaenoriaethau arfaethedig fod yn brif feysydd ffocws yn y cynllun, er bod llawer wedi tynnu sylw at yr heriau presennol o ran cyrchu unrhyw wybodaeth sy'n hyrwyddo'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn perthynas â blaenoriaethau o fewn y Cynllun Heddlu a Throseddu presennol.

Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda grŵp amhariad ar y golwg yn y Trallwng, lle bu 15 o gyfranogwyr, ynghyd â chynrychiolwyr o'r RNIB, yn rhannu eu barn.Cododd y grŵp bryderon am y diffyg cyfathrebu hygyrch, gan amlygu nad yw llawer yn defnyddio technoleg, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu heithrio o ganlyniad i hyn. Cafwyd pryderon hefyd am amlygrwydd yr heddlu, gyda chyfranogwyr yn nodi mai anaml y maent yn gweld swyddogion yn eu cymuned a'u bod yn betrusgar i adrodd am droseddau oherwydd ofn ôl-effeithiau a diffyg hyder yn y camau gweithredu a gymerir. Roedd camddefnyddio cyffuriau ac alcohol yn y gymuned hefyd yn faterion hollbwysig a drafodwyd, ochr yn ochr â phryderon am ddiogelwch unigolion sy'n agored i berygl mewn mannau cyhoeddus.

Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda chlwb pobl fyddar Llanelli, gyda 12 aelod yn bresennol. Un o'r prif bryderon a godwyd oedd diffyg amlygrwydd yr heddlu, gyda'r sawl a fynychodd yn mynegi y byddai cael rhagor o swyddogion heddlu ar y strydoedd yn gwneud iddynt deimlo'n fwy diogel. Amlygodd cyfranogwyr hefyd rwystrau sylweddol o ran cyfathrebu, megis anawsterau wrth gael mynediad at swyddogion heddlu a diffyg sgiliau Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ymhlith swyddogion. Awgrymwyd y dylai o leiaf un swyddog ym mhob gorsaf fod yn fedrus iawn mewn Iaith Arwyddion Prydain i wella hygyrchedd. Pwysleisiodd y grŵp hefyd bwysigrwydd rhoi hyfforddiant am ymwybyddiaeth o fod yn fyddar i'r swyddogion, yn ogystal â'r angen am ddulliau cyfathrebu mwy hygyrch, megis posteri a fersiynau Iaith Arwyddion Prydain o wefannau'r heddlu.
**Dadansoddiad a'r prif ganfyddiadau:**

Y prif feysydd o bryder oedd y canlynol;
- Materion yn ymwneud â **chamddefnyddio sylweddau**;

- Pobl oedrannus yn ofni **adrodd am droseddau** gan eu bod yn ofni ôl-effeithiau;
- Credu **na fydd unrhyw gamau gweithredu'n cael eu cymryd** ar ôl i rywun adrodd am ddigwyddiad;
- **Heddlu sy'n llai gweladwy i'r gymuned** sy'n arwain pobl i gredu nad oes neb i adrodd am bryderon iddynt; ac
- Ymagwedd yr heddlu wrth ymateb i **ddioddefwyr** a delio â nhw.

Awgrymodd grwpiau ffocws y gallai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a Heddlu Dyfed-Powys, fynd i'r afael â'r materion hyn drwy gydweithredu ymhellach â chymunedau Dyfed-Powys, gan ddefnyddio eu profiadau bywyd fel cyfle i ddatblygu a gwella. Mae llawer o grwpiau lleiafrifol, sefydliadau ac elusennau am gyfrannu at wella'r gwasanaeth y mae Heddlu Dyfed-Powys yn ei ddarparu. Mae'r mwyafrif o'r rhain yn dweud eu bod yn hapus i gefnogi **hyfforddiant swyddogion** neu roi adborth i sicrhau bod **y gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd a dioddefwyr yn cael ei wella**. Fodd bynnag, roedd un sylw yn awgrymu nad oes unrhyw beth yn digwydd, ac **nid yw'r heddlu yn cadw at eu haddewidion**.

Gwnaed nifer o sylwadau gan gymunedau yn honni mai ychydig o dystiolaeth a roddwyd iddynt mewn perthynas â'u hadborth i'r heddlu a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Awgrymwyd y gallai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a'r heddlu, gyflwyno sesiynau yn y dyfodol yn cynnwys gweithgareddau cyfathrebu ar ffurf, "fe ddywedoch chi, fe wnaethon ni" i sicrhau bod pob cymuned yn ymwybodol bod eu safbwyntiau'n cael eu clywed. Eu cred oedd y gallai hyn **gynyddu tryloywder** ac **ymwybyddiaeth y cyhoedd** o rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a'r gwaith a wneir gan y swyddfa a'r heddlu.

Dadleuwyd mai'r heddlu a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a ddylai fod yn llywio naratif y gwaith sy'n cael ei wneud, gan beidio â chaniatáu i'r cyhoedd ddod i'w casgliadau eu hunain, yn enwedig ar-lein.

Roedd gan fwyafrif y cyfranogwyr rywfaint o **ymddiriedaeth a hyder** yn Heddlu Dyfed-Powys. Fodd bynnag, cododd nifer o bobl bryderon ynghylch pa mor **hygyrch** yw gwasanaethau'r heddlu a gwasanaethau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i unigolion ag unrhyw amhariad a/neu anableddau, er enghraifft cael mynediad i orsaf heddlu leol neu siarad â swyddog. Soniwyd am **raglen ysgolion** mewn ffordd gadarnhaol sawl gwaith, gyda thrafodaethau i **gefnogi'r addysg a'r ymyrraeth gynnar** y mae'r gwasanaeth hwn yn ei ddarparu.

Fodd bynnag, bu un grŵp cymunedol yn trafod eu **diffyg parch at yr heddlu** oherwydd nad oedd ganddynt **lawer o ymddiriedaeth a hyder** mewn swyddogion. Rhoddwyd enghraifft gan un grŵp a ddywedodd mai dim ond pump allan o fwy na

140 o ddioddefwyr ymosodiadau rhywiol a threisio a allai dystio i brofiad cadarnhaol o gyswllt neu ymchwiliad gan yr heddlu.

Roedd yr adborth yn nodi'r angen i hyrwyddo'r gwahanol ffyrdd o **gysylltu â'r heddlu** oherwydd yn ôl rhai cyfranogwyr, mae'r wybodaeth a'r manylion yn anodd eu canfod ar y wefan.

Nid yw swyddogion heddlu yn gwybod sut i ymateb i'r gymuned fyddar yn ôl rhai cyfranogwyr, a nododd enghreifftiau o sawl achos o swyddogion yn cerdded i ffwrdd oherwydd eu hanallu i gyfathrebu. Awgrymwyd cael swyddogion sydd wedi cael hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain mewn gorsafoedd heddlu, ac ar batrôl, fel ffordd o sicrhau bod y cyhoedd yn gallu adrodd am faterion ar unrhyw adeg. Ystyriwyd bod y gwasanaeth amgen, 24/7 trwy SightLive a 999 BSL yn heriol i rai unigolion nad oes ganddynt ffonau Android neu ffonau clyfar neu fynediad cyson a dibynadwy i'r rhyngrwyd. Ar hyn o bryd, yn ôl un grŵp, mae'n rhaid aros dwy i dair wythnos am ddehonglydd Iaith Arwyddion Prydain, ac mae hyn yn cael ei ystyried yn annheg oherwydd dylai dioddefwyr allu adrodd am drosedd neu gael eu cyfweld beth bynnag fo'u hanghenion cyfathrebu. Nododd rhai y byddai'n well ganddynt gael dehonglydd yn bresennol wrth adrodd i'r heddlu, a theimlai eraill na fyddent eisiau hynny.

Y prif rwystrau o ran ymddiriedaeth ymhlith grwpiau lleiafrifol ar hyn o bryd yw'r ymagweddau tuag at ddioddefwyr a'r bobl hynny sydd fwyaf **bregus** yn ein cymunedau. Mae **gwasanaethau** a sefydliadau **cymorth** yn cael eu hystyried yn hanfodol oherwydd tybir bod diffyg gwasanaethau gan yr heddlu. Fodd bynnag, roedd mwyafrif yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar **hyfforddiant** a **chodi ymwybyddiaeth ymhlith swyddogion** i sicrhau eu bod yn gallu delio â heriau ac anghenion cymunedau.

Tynnodd pob un o'r grwpiau lleiafrifol sylw at y ffaith bod defnyddio posteri, cylchlythyrau, negeseuon e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd i gyd yn ffyrdd gwych i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyfathrebu'n well â'r cyhoedd am flaenoriaethau a chanlyniadau plismona. Fodd bynnag, y brif thema o'r adborth oedd darparu'r wybodaeth mewn fformat **hygyrch** ac i **flaenoriaethu ymgysylltu**.

### 4.4 Adborth gan y Panel Heddlu a Throseddu

Rhoddodd chwe aelod o Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys adborth ar ddatblygiad y Cynllun Heddlu a Throseddu newydd. Amlygodd eu sylwadau themâu pwysig, megis amlygrwydd yr heddlu, yr angen i ymgysylltu â'r gymuned, ymateb yn brydlon i ddigwyddiadau, a phwysigrwydd meithrin ymddiriedaeth o fewn y boblogaeth leol. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys cynyddu'r adnoddau ar gyfer y Timau Plismona Bro, buddsoddi mewn gweithgareddau yn ymwneud â

chamddefnyddio sylweddau ac atal troseddau, a sicrhau bod swyddogion yn cael eu cefnogi'n ddigonol i ddarparu gwasanaeth effeithiol. Pwysleisiodd yr aelodau hefyd bwysigrwydd gwella cyfathrebu a chydweithredu rhwng yr heddlu a chymunedau lleol.

### 4.5 Grwpiau ffocws gyda chynghorwyr

Cytunodd yr holl gynghorwyr â'r blaenoriaethau arfaethedig, gan gadarnhau eu bod yn feysydd y dylid eu blaenoriaethu. Roedd dosbarthu a chamddefnyddio sylweddau yn bwnc a oedd yn codi'n aml ym mhob trafodaeth grŵp ffocws. Roedd yn cynrychioli un o'r pryderon mwyaf, wrth ystyried eu heffaith bellgyrhaeddol, yn enwedig ar blant a phobl ifanc.

**Dadansoddiad a'r prif ganfyddiadau:**

Y themâu a amlygwyd, ac a ganfuwyd fel y rhai pwysicaf yn ystod y trafodaethau oedd y canlynol:

- **Atal niwed**, yn enwedig camddefnyddio sylweddau
- Cefnogi dioddefwyr, gan ganolbwyntio ar **ddeall anghenion dioddefwyr** a'r ffordd y mae swyddogion Heddlu Dyfed-Powys yn ymgysylltu â dioddefwyr troseddau; o'r cam cyntaf o adrodd am drosedd hyd at y camau gweithredu a gymerwyd, a'r adborth a ddarperir gan Heddlu Dyfed-Powys
- **Ymyriadau cynnar**, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig i sicrhau bod yna fentrau sy'n cefnogi cymunedau gwledig a threfol. Canmolwyd y **rhaglen ysgolion** am ei darpariaeth **ymyrraeth gynnar, atal ac addysg** i blant a phobl ifanc.

Ystyriwyd mai **amlygrwydd yr heddlu** oedd un o'r dulliau mwyaf effeithiol o gynyddu'r ymdeimlad o fod yn ddiogel mewn cymunedau yn ôl yr adborth. Portreadwyd y perthnasoedd â'r heddlu fel rhai **cadarnhaol** gan gyfranogwyr a oedd yn fodlon â pha mor amlwg yw'r heddlu yn eu hardal. Fodd bynnag, er bod yr heddlu'n cael eu parchu a'u gwerthfawrogi mewn rhai meysydd, mae heriau o ran **amseroedd ymateb, diffyg hyder wrth adrodd am droseddau**, yn benodol wrth alw 101, a theimlad nad yw'r heddlu yn gweithredu neu'n rhoi adborth pan adroddir am droseddau.

Codwyd un sylw yn nodi **nad yw pobl hŷn yn ddigon hyderus** i adrodd am droseddau, yn enwedig troseddau sy'n ymwneud â **thwyll**, gyda chyfranogwyr yn teimlo y dylid canolbwyntio mwy ar atal yn y maes hwn.

Amlygodd sylw arall yn ymwneud â phlismona dosbarthu a chamddefnyddio sylweddau fod y galw am wasanaethau yn uwch o lawer na gallu'r heddlu i ymateb.

Y ffyrdd a awgrymwyd y gallai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu fynd i'r afael â'r materion hyn oedd y canlynol;

- Gweithio'n agosach gyda gwirfoddolwyr;
- Cryfhau cysylltiadau rhwng timau plismona bro a thimau atal a chynghorwyr;
- Caniatáu i asiantaethau a gwasanaethau cymorth adrodd am droseddau ar ran unigolion;
- Cynyddu amlygrwydd ac ymgysylltiad yr heddlu;
- Gweithio gyda chynghorau i gyflwyno mentrau ymyrraeth gynnar/dargyfeirio ar gyfer pobl ifanc;
- Mae ymgysylltu â'r cyhoedd yn hollbwysig, ac roedd adborth yn awgrymu y dylai swyddogion Heddlu Dyfed-Powys fod yn mynd i ddigwyddiadau lleol i sicrhau eu bod yn cael eu gweld yn yr ardal leol.

## 5. Casgliad

Casglodd yr ymgynghoriad ar y cynllun adborth gwerthfawr gan amrywiaeth o randdeiliaid. Gyda 659 o ymatebion i'r arolwg ar-lein, ynghyd â chyfranogiad ychwanegol gan 176 o unigolion mewn digwyddiadau ymgysylltu, 34 o gyfranogwyr mewn grwpiau ffocws gyda grwpiau lleiafrifol, a 31 o gyfranogwyr mewn grwpiau ffocws ar gyfer cynghorwyr, mae'r canfyddiadau'n darparu dealltwriaeth gynhwysfawr o flaenoriaethau'r cyhoedd o ran plismona.

Mae canlyniadau'r arolwg yn darparu gwybodaeth hollbwysig am farn y cyhoedd ar blismona yn ardal Dyfed-Powys. Mynegodd mwyafrif yr ymatebwyr hyder yn Heddlu Dyfed-Powys, gan werthfawrogi **amlygrwydd yr heddlu** a **diogelwch cymunedol** yn benodol. Fodd bynnag, nodwyd meysydd fel amseroedd **ymateb** ac ymdrin ag **ymddygiad gwrthgymdeithasol** yn feysydd i'w gwella.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn blaenoriaethu **cefnogi cymunedau diogel** a **sicrhau cyfiawnder**. Ar yr un pryd mae **cefnogi dioddefwyr** hefyd yn bwysig, efallai y bydd angen canolbwyntio mwy ar y maes hwn. Ymatebwyr a nododd eu bod yn **Wyn Prydeinig** a ymgysylltodd â'r arolwg yn bennaf. Cafwyd cynrychiolaeth gyfyngedig o grwpiau lleiafrifol, gan dynnu sylw at yr angen i gysylltu'n fwy eang â'r grwpiau hyn.

Roedd sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd, a grwpiau ffocws, yn pwysleisio eto yr angen am **well cyfathrebu** a **chydweithredu** rhwng yr heddlu a chymunedau lleol.

Pwysleisiodd grwpiau lleiafrifol a chynghorwyr bwysigrwydd **ymyriadau cynnar**, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc, yn ogystal â'r angen am **heddlu mwy gweladwy** a phlismona rhagweithiol mewn ardaloedd gwledig.

Mae ymddiriedaeth yn nhegwch Heddlu Dyfed-Powys yn gryf, ond mae lle i gryfhau tryloywder a chysylltiadau â'r gymuned. Roedd yr awgrymiadau ar gyfer gwella hyn yn cynnwys **gwell cyfathrebu** a **mwy o gydweithredu â sefydliadau lleol**.

Bydd yr holl adborth a gasglwyd drwy'r ymgynghoriad hwn yn cael ei ystyried gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'i Swyddfa, a bydd yn helpu i lunio'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys, gan sicrhau ei fod yn adlewyrchu blaenoriaethau a phryderon y cyhoedd.

**ATODIAD A: Themâu a chwestiynau'r ymgynghoriad.**

**Cwestiynau'r arolwg ar-lein:**

Blaenoriaethau ar gyfer plismona

1. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r blaenoriaethau a amlinellwyd?

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn siŵr

2. Eglurwch pam yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r blaenoriaethau hyn. A ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth ar goll?

3. Rhowch wybod i ni pa flaenoriaethau sydd bwysicaf i chi?

- Cefnogi cymunedau diogel ac atal niwed
- Cefnogi dioddefwyr ac atal gormesu
- Sicrhau cyfiawnder

Rhowch eich rheswm dros ddewis y flaenoriaeth hon:

4. A oes gennych chi unrhyw syniadau ar sut y gall Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu fynd i'r afael â'r materion hyn?

Atebolrwydd a thryloywder

5. Faint o hyder sydd gennych chi yn Heddlu Dyfed-Powys?

- Llawer o hyder
- Rhywfaint o hyder
- Ddim yn siŵr
- Ychydig o hyder
- Dim hyder o gwbl

6. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol?

- Cytuno'n llwyr
- Cytuno
- Ddim yn siŵr
- Anghytuno
- Anghytuno'n llwyr

7. Rhowch ychydig o fanylion am yr hyn sydd wedi dylanwadu ar eich lefel o ymddiriedaeth a hyder yn Heddlu Dyfed-Powys.

8. A oes unrhyw beth y gallai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ei wneud i wella hyn?

Ymgysylltu â'r gymuned

9. Sut ydych chi'n meddwl y gall Heddlu Dyfed-Powys a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ymgysylltu'n well â thrigolion a sefydliadau cymunedol?

Sylwadau ychwanegol

10. A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei rannu â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ynghylch diogelwch cymunedol, plismona a chyfiawnder?

**Cwestiynau'r grŵp ffocws:**

Blaenoriaethau ar gyfer plismona

1. A ddylai'r blaenoriaethau a amlinellwyd gael eu cynnwys yn y Cynllun Heddlu a Throseddu?
2. Eglurwch pam yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r blaenoriaethau hyn. A oes unrhyw beth ar goll o'r blaenoriaethau hyn?
3. Rhowch wybod i ni pa flaenoriaethau sydd bwysicaf i chi a rhowch reswm pam.
4. A oes gennych chi unrhyw syniadau ar sut y gall Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu fynd i'r afael â'r materion hyn?
5. Yn eich barn chi, pa rôl y mae sefydliadau a grwpiau cymunedol yn ei chwarae o ran bodloni'r blaenoriaethau hyn?
6. Sut gall yr heddlu weithio'n fwy effeithiol gyda grwpiau lleol?
7. Sut gall sefydliadau / elusennau lleol gyfrannu at ymdrechion atal troseddu, gan weithio gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Dyfed-Powys (e.e. syniadau newydd ar gyfer mentrau fel Boxwise, PL Kicks ac ati?

Canfyddiadau'r cyhoedd o blismona

8. Beth yw barn eich cymuned am rôl yr heddlu?
9. A oes gennych chi ffydd a hyder yn Heddlu Dyfed-Powys yn bersonol? Eglurwch beth sy'n dylanwadu ar hyn.

Cydraddoldeb a chynhwysiant

10. A ydych chi'n teimlo y gallai plismona yn Nyfed-Powys fod yn fwy teg a chynhwysol? Os felly, sut?
11. 11. A oes unrhyw rwystrau sy'n atal rhai rhannau o'r gymuned rhag ymddiried yn yr heddlu? Os oes, beth yw'r rhwystrau hyn?

Cyfathrebu ac adborth

12. Sut all Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyfathrebu'n well â'r cyhoedd am flaenoriaethau a deilliannau plismona?
13. Sut hoffech chi i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyfathrebu â chi? (e.e. cyfryngau cymdeithasol, bwletinau e-bost)

**ATODIAD B: Grwpiau lleiafrifol y cysylltodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu â nhw gyda chynnig i gymryd rhan mewn sesiynau grŵp ffocws yr ymgynghoriad ar Gynllun yr Heddlu a Throseddu.**

1. Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion

2. Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr

3. Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Benfro

4. Clybiau Ffermwyr Ifanc Powys

5. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

6. Cymunedau Mwy Diogel Cymru (Ardal Dyfed-Powys)

7. Pobl yn Gyntaf Powys

8. Gweithiwr cymorth o Dîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid, Powys

9. Cymdeithas Macwlaidd (gan gynnwys 14 o grwpiau gwahanol ar draws ardal Dyfed-Powys)

10. Dosbarth Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill Grŵp Colegau NPTC, Y Drenewydd

11. Dosbarth Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill Grŵp Colegau NPTC, Aberhonddu

12. Rhwydwaith LHDTC+ Staff Prifysgol Aberystwyth

13. Rhwydwaith Staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol Prifysgol Aberystwyth

14. Canolfan Ddiwylliannol Islamaidd Aberteifi

15. Cymdeithas Pride Aber

16. Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth

17. Mosg Aberystwyth

18. Cyngor Ceredigion (swyddog cefnogi cyfranogiad)
19. Clwb Ffermwyr Ifanc Tregaron (trwy swyddog heddlu)
20. Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (trwy swyddog heddlu)
21. Grŵp addysgu yn y cartref Cristnogol
22. Nyth y Fron (grŵp cymorth bwydo ar y fron)
23. RAY Ceredigion
24. Dunbia
25. Rhwydwaith Amlddiwylliannol Llanelli
26. Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin
27. Clwb Byddar Llanelli
28. Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant Caerfyrddin (trwy swyddog heddlu)
29. Canolfan Gymunedol Affricanaidd
30. Gweithiwr cymorth o Dîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid, Sir Gaerfyrddin
31. CarmDas (Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin)
32. Pride Sir Benfro
33. Grŵp Canolfan Ieuenctid Edge
34. Lleisiau Ifanc dros Ddewis
35. Mosg Hwlffordd
36. Pembrokeshire Vikings
37. Mosg Aberdaugleddau
38. Pobl yn Gyntaf Sir Benfro
39. Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (i rannu â chysylltiadau)
40. Panel Heddlu a Throseddu (ar gyfer argymhellion)
41. Tîm Cydlyniant Cymunedol Canolbarth a De-orllewin Cymru (i rannu â chysylltiadau)
42. Rhwydwaith Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer staff Heddlu Dyfed-Powys (i rannu/ar gyfer argymhellion)

43. Rhwydwaith Cymorth LHDT+ ar gyfer staff Heddlu Dyfed-Powys (i rannu/ar gyfer argymhellion)

44. Rhwydwaith Cymorth Galluoedd ar gyfer staff Heddlu Dyfed-Powys (i rannu/ar gyfer argymhellion)